IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

NOSC 2026 Rhif 198

Cyfarwyddydau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Cyflenwi a Dosbarthu Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth) (Cymru) 2026

Gwnaed	*12 Tachwedd 2026*
Yn dod i rym	*13 Tachwedd 2026*

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

NWSI 2026 No. 198

The NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) (Supply and Distribution of Medical Certificates of Cause of Death) (Wales) Directions 2026

Made	*12 November 2026*
Coming into force	*13 November 2026*

NOSC 2026 Rhif 198

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Cyfarwyddydau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Cyflenwi a Dosbarthu Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth) (Cymru) 2026

Gwnaed	*12 Tachwedd 2026*
Yn dod i rym	*13 Tachwedd 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 23(1), 24(1), 203(9) a 204(3)(c) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

Enwi, cymhwyso, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Cyflenwi a Dosbarthu Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth) (Cymru) 2026.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "yr Awdurdod" ("*the Authority*") yw Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) a sefydlwyd gan Orchymyn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2005(**2**);

ystyr "Swyddogaethau a Gyfarwyddir" ("*Directed Functions*") yw'r swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2 o'r Cyfarwyddydau hyn;

ystyr "swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chyflenwi a dosbarthu Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth papur" ("*functions of the Welsh Ministers in relation to the supply and distribution of paper Medical Certificates of Cause of Death*") yw swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adrannau 1, 1A a 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 fel y maent yn ymwneud â gwella ansawdd y gwasanaeth iechyd a diogelwch cleifion mewn cysylltiad â'r system archwilwyr meddygol statudol a'r dystysgrif feddygol achos marwolaeth(**3**)

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2005/2414, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/632, 2007/1201, 2013/235, 2015/1862, 2017/959, 2018/378, 2019/776, a 2023/1071.
(**3**) Mae Rheoliadau Archwilwyr Meddygol (Cymru) 2024 O.S. 2024/505 (Cy. 81) a Rheoliadau Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth 2024O.S. 2024/492 yn sefydlu'r system archwilwyr meddygol statudol ac yn

a swyddogaeth Gweinidogion Cymru i roi ar gael dystysgrifau meddygol achos marwolaeth i ymarferwyr meddygol cofrestredig ac archwilwyr meddygol(**4**);

ystyr "TFAM" ("*MCCD*") yw'r Dystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth, sy'n cynnwys tystysgrif yr ymarferydd a fu'n gweini a thystysgrif yr archwilydd meddygol, sef y tystysgrifau y mae'n ofynnol eu cwblhau yn unol â rheoliadau 3 a 19 o Reoliadau Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth 2024(**5**).

Swyddogaethau mewn perthynas â chyflenwi a dosbarthu Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth papur

2. Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Awdurdod i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r gwaith cyflawni gweithredol o ran argraffu, cyflenwi a dosbarthu TFAMau papur, ac yn benodol i—

(a) argraffu, cyflenwi a dosbarthu TFAMau papur i'r holl sefydliadau yng Nghymru y gall fod yn ofynnol iddynt gwblhau TFAM, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ysbytai, practisau cyffredinol, swyddfeydd archwilwyr meddygol, cartrefi gofal a hosbisau;

(b) sicrhau bod y TFAMau papur yn cael eu hargraffu yn unol â'r fformat a nodir yn Atodlenni 1 i 4 i Reoliadau Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth 2024;

(c) bod yn gyfrifol am ddanfon cyfathrebiadau i'r sector gofal iechyd i roi gwybod i ddefnyddwyr terfynol TFAMau am newidiadau i'r broses archebu a bod yn gyfrifol am fonitro ac ymateb i ymholiadau gan sefydliadau gofal iechyd ynghylch archebu TFAMau;

(d) monitro symiau stoc ac archebion ar gyfer TFAMau a sicrhau bod isafsymiau stoc yn cael eu cynnal;

(e) sicrhau bod fersiynau dwyieithog Cymraeg a Saesneg o TFAMau ar gael fel y nodir yn Atodlenni 1 i 4 i Reoliadau Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth 2024;

(f) bod yn gyfrifol am weinyddu a chyflawni archebion TFAM, ac am logisteg barhaus sy'n ymwneud â dosbarthu TFAMau megis storio, pecynnu a gweinyddu;

(g) bod yn gyfrifol am reoli contract unrhyw gyflenwr trydydd parti a is-gontractir gan yr Awdurdod i gyflawni unrhyw un neu ragor o'r Swyddogaethau a Gyfarwyddir a gweithio gydag ef i ddarparu porth archebu ar-lein ar gyfer TFAMau;

(h) bod yn gyfrifol am ddarparu cymorth gweithredol er mwyn i ddefnyddwyr gynefino, ac ar gyfer archebion brys;

(i) bod yn gyfrifol am ddarparu tîm gwasanaeth byw i gwsmeriaid sydd ar gael i'r sector gofal iechyd mewn cysylltiad ag ymholiadau archebu a dosbarthu;

(j) adrodd ar berfformiad y gwasanaeth i Weinidogion Cymru;

(k) cael cynllun yn ei le er mwyn sicrhau y bydd TFAMau yn parhau i fod ar gael, ac yn parhau i gael eu dosbarthu, mewn argyfyngau, er enghraifft pandemig, yn unol â'r weithdrefn weithredu arferol.

---

rhagnodi'r dystysgrif feddygol achos marwolaeth y mae rhaid ei chwblhau pan fydd marwolaeth yn cael ei hardystio.

(**4**) Rheoliad 25 o O.S. 2024/492.

(**5**) O.S. 2024/492.

Rhoi sylw i bolisïau a chanllawiau

3. Rhaid i'r Awdurdod roi sylw i unrhyw bolisïau, unrhyw gyngor neu unrhyw ganllawiau gan Weinidogion Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Awdurdod yn ysgrifenedig yn eu cylch neu yn ei gylch.

Cadw cofnodion ac adroddiadau

4.—(1) Rhaid i'r Awdurdod gadw a chynnal cofnodion sy'n ymwneud â chyflawni'r gofynion yn y Cyfarwyddydau hyn, gan gynnwys—

(a) yr holl benderfyniadau rheoli a gweithredu;

(b) dogfennau sy'n ymwneud ag unrhyw ymgyfreitha (pa un a yw'n ymgyfreitha gwirioneddol neu ddisgwyliedig);

(c) cwynion a wneir gan unrhyw berson.

(2) Rhaid i'r Awdurdod adrodd ar berfformiad y gwasanaeth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gweithgareddau neu swyddogaethau a gyflawnir o dan y Cyfarwyddydau hyn.

Diogelu data

5. Rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wrth ymgymryd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion yn y Cyfarwyddydau hyn a sicrhau bod protocolau digonol yn eu lle er mwyn sicrhau diogeledd a chyfrinachedd gwybodaeth bersonol, a sicrhau ei bod yn cael ei diogelu.

Defnyddio contractwyr trydydd parti

6.—(1) Caiff yr Awdurdod ymrwymo i gytundeb â chontractwr trydydd parti i gyflawni unrhyw un neu ragor o'r Swyddogaethau a Gyfarwyddir ar ran yr Awdurdod.

(2) Pan fo'r Awdurdod yn dymuno ymrwymo i unrhyw gytundebau yn unol â pharagraff (1), rhaid iddo gael cydsyniad ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru cyn gwneud hynny.

(3) Pan fo'r Awdurdod wedi ymrwymo i gytundeb â chontractwr trydydd parti, rhaid i'r Awdurdod gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y contractwr trydydd parti yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Cyfarwyddydau hyn.


Adolygu, dirymu ac atal dros dro y Cyfarwyddydau hyn

7.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r Cyfarwyddydau hyn pryd bynnag y maent yn ystyried ei bod yn briodol.

(2) Rhaid i'r Awdurdod ymgymryd â'r Swyddogaethau a Gyfarwyddir a'r cyfrifoldebau sydd wedi eu cynnwys ym mharagraffau eraill y Cyfarwyddydau hyn oni bai a hyd nes—

(a) bod y Cyfarwyddydau hyn yn cael eu diwygio neu eu dirymu gan gyfarwyddyd pellach, neu

(b) bod Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Awdurdod yn ysgrifenedig drwy roi hysbysiad rhesymol i atal dros dro unrhyw ddarpariaeth yn y Cyfarwyddydau hyn, neu i ddod ag unrhyw ddarpariaeth yn y Cyfarwyddydau hyn i ben.



James Calvert
Dirprwy Brif Swyddog Meddygol
Llywodraeth Cymru, o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal, un o Weinidogion Cymru
12 Tachwedd 2026

NWSI 2026 No. 198

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) (Supply and Distribution of Medical Certificates of Cause of Death) (Wales) Directions 2026

Made	*12 November 2026*
Coming into force	*13 November 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 23(1), 24(1), 203(9) and 204(3)(c) of the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**), give the following Directions.

Title, application, coming into force and interpretation

1.—(1) The title of these Directions is the NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) (Supply and Distribution of Medical Certificates of Cause of Death) (Wales) Directions 2026.

(2) These Directions apply in relation to Wales and come into force the day after they are made.

(3) In these Directions—

"the Authority" ("yr Awdurdod") means the NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) established by the NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) (Establishment and Constitution) Order 2005(**2**);

"Directed Functions" ("Swyddogaethau a Gyfarwyddir") means the functions referred to in paragraph 2 of these Directions;

"functions of the Welsh Ministers in relation to the supply and distribution of paper Medical Certificates of Cause of Death" ("swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas chyflenwi a dosbarthu Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth papur") means the functions of the Welsh Ministers under sections 1, 1A and 2 of the National Health Service (Wales) Act 2006 as they relate to improving the quality of the health service and patient safety in respect of the statutory medical examiner

(**1**) 2006 c. 42.
(**2**) S.I. 2005/2414, as amended by S.I. 2006/632, 2007/1201, 2013/235, 2015/1862, 2017/959, 2018/378, 2019/776, and 2023/1071.

system and the medical certificate of cause of death(**3**) and the function of the Welsh Ministers to make medical certificates of cause of death available to registered medical practitioners and medical examiners(**4**);

"MCCD" (" TFAM") means the Medical Certificate of Cause of Death, which includes both the attending practitioner's certificate and medical examiner's certificate which are the certificates required to be completed in accordance with regulations 3 and 19 of The Medical Certificate of Cause of Death Regulations 2024(**5**).

Functions in relation to the supply and distribution of paper Medical Certificates of Cause of Death

2. The Welsh Ministers direct the Authority to exercise the functions of the Welsh Ministers in relation to the operational delivery of the print, supply and distribution of paper MCCDs, and in particular to—

(a) print, supply and distribute paper MCCDs to all organisations in Wales that may be required to complete a MCCD including, but not limited to, hospitals, general practices, medical examiner offices, care homes and hospices;

(b) ensure that the paper MCCDs are printed in accordance with the format as set out in Schedules 1 to 4 to The Medical Certificate of Cause of Death Regulations 2024;

(c) be responsible for delivering communications to the healthcare sector to inform end users of MCCDs of changes to the ordering process, and for monitoring and responding to queries from healthcare organisations regarding the ordering of MCCDs;

(d) monitor MCCD stock and order volumes and ensure minimum volumes of stock are maintained;

(e) ensure the availability of bilingual English and Welsh language versions of MCCDs as set out in Schedules 1 to 4 to The Medical Certificate of Cause of Death Regulations 2024;

(f) be responsible for MCCD order administration and delivery and ongoing logistics relating to the distribution of MCCDs such as storage, packaging and administration;

(g) be responsible for the contract management of any third-party supplier subcontracted by the Authority to fulfil any of the Directed Functions, and work with them to provide an online ordering portal for MCCDs;

(h) be responsible for the provision of operational support for user onboarding, and for emergency orders;

(i) be responsible for the provision of a live customer service team available to the healthcare sector in respect of ordering and distribution queries;

(j) report on service performance to the Welsh Ministers;

(k) have a plan in place to ensure that MCCDs will continue to be available and distributed in emergency situations, for example a pandemic, in line with the normal operating procedure.

(**3**) The Medical Examiners (Wales) Regulations 2024 S.I. 2024/505 (W. 81) and The Medical Certificate of Cause of Death Regulations 2024S.I. 2024/492 establish the statutory medical examiner system and prescribe the medical certificate of cause of death which must be completed when a death is certified.
(**4**) Regulation 25 of S.I. 2024/492.
(**5**) S.I. 2024/492.

Regard for policies and guidance

3. The Authority must have regard to such policies, advice or guidance of the Welsh Ministers as the Welsh Ministers may notify in writing to the Authority.

Record keeping and reports

4.—(1) The Authority must keep and maintain records relating to the discharge of the requirements in these Directions, including—

(a) all management and operation decisions;

(b) documents relating to any litigation (whether actual or anticipated);

(c) complaints made by any person.

(2) The Authority must report on service performance to the Welsh Ministers relating to activities or functions carried out under these Directions.

Data protection

5. The Authority must comply with data protection legislation when undertaking any of the requirements in these Directions and ensure that adequate protocols are in place to ensure the security, confidentiality and protection of personal information.

Use of third-party contractors

6.—(1) The Authority may enter into an agreement with a third-party contractor to discharge any of the Directed Functions on behalf of the Authority.

(2) Where the Authority wishes to enter into any agreements in accordance with paragraph (1), it must obtain written consent from the Welsh Ministers before doing so.

(3) Where the Authority has entered into an agreement with a third-party contractor, the Authority must take reasonable steps to ensure the third-party contractor is complying with its obligations under these Directions.


Review, revocation and suspension of these Directions

7.—(1) The Welsh Ministers may review these Directions whenever they consider appropriate.

(2) The Authority must undertake the Directed Functions and responsibilities contained in the other paragraphs of these Directions unless and until—

(a) these Directions are amended or revoked by a further direction, or

(b) the Welsh Ministers instruct the Authority in writing by giving reasonable notice to suspend or cease any provision of these Directions.



James Calvert
Deputy Chief Medical Officer
Welsh Government, under the authority of the Cabinet Minister for Health and Care, one of the Welsh Ministers
12 November 2026